WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Rhagfyr 2012
www.wao.gov.uk

# Cyfrifon Awdurdodau Lleol 2011-12



Rwyf wedi llunio a chyhoeddi'r adroddiad yn unol â Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Cynhwysai tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru a'm cynorthwyodd i lunio'r adroddiad hwn John Herniman a Jeremy Saunders

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn penodi archwilwyr i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru, yn cynnal ac yn hyrwyddo astudiaethau gwerth am arian yn y sector llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion gwerth gorau o dan Raglen Gwella Cymru.

Mae hefyd yn archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hithau gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo'r pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwbl annibynnol ar y Llywodraeth, y Cynulliad Cenedlaethol a'r cyrff eraill sydd yn cael eu harchwilio a'i arolygu ganddo. At hynny, er mwyn amddiffyn sefyllfa gyfansoddiadol llywodraeth leol, nid yw'n cyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol sy'n ymwneud yn benodol â gwaith llywodraeth leol, heblaw am pan fo angen gwneud yn ôl statud.

Yr Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i staff gyda'i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 02920 320500, e-bost: wales@wao.gov.uk, neu gweler y wefan www.wao.gov.uk

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2012

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio. Gellir anfon unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r cyhoeddiad yma atom yn infoofficer@wao.gov.uk

# Cynnwys


## Adroddiad cryno 4

## Adroddiad manwl 6

Yn gyffredinol llwyddodd awdurdodau i baratoi cyfrifon a phapurau gwaith ategol amserol, a chyhoeddwyd barnau archwilio diamod gennym, yn y rhan fwyaf o achosion erbyn 30 Medi 6

- Llwyddodd pob awdurdod i baratoi ac ardystio cyfrifon drafft erbyn 30 Mehefin ond nid oedd y gwaith wedi'i gwblhau ymhob achos erbyn y dyddiad hwnnw 7
- Roedd papurau gwaith i ategu'r cyfrifon o safon dda ar y cyfan ac roedd y safon honno'n gwella, fodd bynnag mae angen i rai awdurdodau wella ymhellach 7
- Roedd angen nifer o addasiadau i'r cyfrifon drafft, yn bennaf mewn perthynas ag eiddo, offer a chyfarpar 8
- Cafodd pob awdurdod ond dau farnau archwilio diamod erbyn 30 Medi 10
- Mae rhai awdurdodau yn methu â bodloni'r gofynion i gyhoeddi eu cyfrifon erbyn 30 Medi o hyd 11
- O ganlyniad i faterion sy'n cael eu hystyried mewn perthynas â chwestiynau a godwyd gan etholwyr llywodraeth leol, nid yw'r archwilydd wedi ardystio nifer fach o archwiliadau fel rhai sydd wedi'u cwblhau 11

Mae cyfleoedd i egluro'r driniaeth gyfrifyddu mewn sawl maes 12

- Mae angen egluro'r driniaeth gyfrifyddu ar gyfer ysgolion o hyd 12
- Mae methodolegau prisio tai cyngor yn arwain at brisiadau anghyson 12
- Ni chydnabuwyd rhwymedigaethau o ran adfer safleoedd tirlenwi yn gyson 12

Ni lwyddodd y rhan fwyaf o awdurdodau i baratoi eu ffurflenni Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan drafft yn brydlon er bod y rhan fwyaf o'r ffurflenni terfynol wedi'u cwblhau erbyn y dyddiad gofynnol 13

Yn gyffredinol, roedd y datganiadau llywodraethu blynyddol wedi'u paratoi'n dda er y gellid gwella eu heffeithiolrwydd o hyd 14

Asesodd archwilwyr fod gwasanaethau archwilio mewnol y rhan fwyaf o awdurdodau yn cydymffurfio â safonau CIPFA 15

# Adroddiad cryno

1 Mae cyrff llywodraeth leol (awdurdodau) yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau ac, wrth wneud hynny, yn gwario swm sylweddol o arian cyhoeddus. Fel pob corff cyhoeddus, mae'n ofynnol iddynt gynhyrchu cyfres o ddatganiadau ariannol blynyddol (cyfrifon) i ddangos a chyflwyno adroddiad ar y modd y maent yn gwarchod yr arian cyhoeddus a roddwyd iddynt, a sicrhau bod y datganiadau hynny'n cael eu harchwilio. Mae'r gwaith o gynhyrchu cyfrifon cywir ac amserol yn dasg sylweddol sy'n cyfrannu at lywodraethu corfforaethol effeithiol. Gall unrhyw fethiant i gyhoeddi cyfrifon cywir ac archwiliedig erbyn y terfynau amser rhagnodedig adlewyrchu'n wael ar y sefydliad, gan danseilio ei drefniadau rheolaeth ariannol a llywodraethu corfforaethol.

2 Rwy'n penodi archwilwyr i bob awdurdod yng Nghymru i archwilio'u cyfrifon a rhoi eu barn arnynt. Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i'r archwilwyr a benodir archwilio ac ardystio'r cyfrifon, a bodloni'u hunain bod y cyfrifon:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr awdurdodau;
- yn cydymffurfio â'r holl ofynion deddfwriaethol perthnasol;
- wedi'u paratoi yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol.

3 Mae'r adroddiad hwn, sef fy ail adroddiad blynyddol ar gyfrifon awdurdodau lleol, yn crynhoi canlyniadau gwaith yr archwilwyr ar gyfer 2011-12 yn y mathau canlynol o awdurdodau yng Nghymru:

**Arddangosyn 1**

| Math o gorff | Nifer |
|---|---|
| Awdurdodau unedol (gan gynnwys wyth cronfa bensiwn) | 22 |
| Awdurdodau'r heddlu | 4 |
| Awdurdodau tân ac achub | 3 |
| Awdurdodau'r parciau cenedlaethol | 3 |

4 Nid yw cyrff llywodraeth leol eraill, llai o faint, y caiff eu cyfrifon eu harchwilio hefyd, ee cydbwyllgorau a chynghorau cymuned a thref, wedi'u cynnwys yng nghwmpas yr adroddiad hwn.

5 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005, fel y'u diwygiwyd (y Rheoliadau), yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau baratoi cyfrifon, ac i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol eu hardystio erbyn 30 Mehefin gyda'r cyfrifon archwiliedig terfynol yn cael eu hailardystio, eu cymeradwyo a'u cyhoeddi erbyn 30 Medi. Pan fo methiant i fodloni'r naill derfyn amser neu'r llall, rhaid i'r awdurdod gyhoeddi datganiad sy'n manylu ar y camau gweithredu (gan gynnwys amserlenni) sy'n cael eu cymryd i baratoi, cymeradwyo ac ardystio'r cyfrifon.

6 Roedd 2011-12 yn flwyddyn o gyfuno yn dilyn heriau cyflwyno'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) am y tro cyntaf yn 2010-11. Y prif heriau eleni, yn ogystal â rhai newidiadau technegol pellach, oedd rhoi gofynion parhaus IFRS ar waith, newid y sail cyfrifyddu ar gyfer asedau treftadaeth ac adfer y duedd ar i fyny o ran ansawdd cyfrifon a phapurau gwaith a ddangosodd ostyngiad cyffredinol yn y flwyddyn flaenorol.

7 Ar y cyfan, gwellodd ansawdd cyfrifon a phapurau gwaith ategol o gymharu â 2010-11, er bod nifer fach o awdurdodau wedi ei chael hi'n anodd darparu papurau gwaith amserol a chywir o hyd i ategu eu cyfrifon, yn arbennig o ran cofnodion a thrafodion eiddo, offer a chyfarpar.

8 Er mwyn llunio set o gyfrifon, erbyn y dyddiad terfyn, sef 30 Mehefin, mae angen trefniadau rheoli prosiect a chydgysylltu effeithiol ar draws nifer o adrannau a gwasanaethau. Ar gyfer 2011-12, ardystiwyd yr holl gyfrifon gan Swyddogion Ariannol Cyfrifol erbyn 30 Mehefin. Ar ôl archwilio'r cyfrifon hynny, rhoddwyd barnau diamod cyn y terfyn amser, sef 30 Medi, ymhob achos ond dau. Yn un o'r achosion hynny, rhoddwyd barn ddiamod ym mis Hydref ac mae'r llall yn dal i gael ei ystyried. Amlygodd y broses o archwilio'r rhan fwyaf o'r cyfrifon fod angen nifer o ddiwygiadau, yr oedd rhai ohonynt yn berthnasol. Roedd y meysydd lle roedd angen y rhan fwyaf o addasiadau yn ymwneud â chyfrifyddu ar gyfer eiddo, offer a chyfarpar (asedau anghyfredol) y gellir ei briodoli'n bennaf i'r gofynion cymhleth yn y maes hwn.

9 Ceir rhai meysydd o hyd lle mae diffyg canllawiau cyfrifyddu pendant yn arwain at anghysondebau. Mae tri o'r prif feysydd lle mae hyn yn digwydd yn ymwneud â: phrisio tai cyngor; y ffordd yr ymdrinnir ag ysgolion gwirfoddol; ac adfer safleoedd tirlenwi. Mae angen canllawiau a chynnydd pellach er mwyn ymdrin â'r rhain yn y dyfodol.

10 Yn y rhan fwyaf o achosion, ni chwblhawyd y ffurflenni roedd angen i awdurdodau eu darparu i ategu Cyfrifon cenedlaethol y Llywodraeth Gyfan (WGA), yn brydlon. Mae'r sefyllfa hon yn siomedig gan ein bod wedi disgwyl gwelliant o ran amseroldeb dychwelyd ffurflenni, o gofio yr ymdriniwyd â'r materion a oedd yn gysylltiedig ag IFRS y llynedd. Er bod y rhan fwyaf o'r ffurflenni terfynol archwiliedig wedi'u cwblhau'n brydlon, neu o fewn ychydig ddiwrnodau i'r terfyn amser, mae'n amlygu'r ffaith bod angen i awdurdodau roi mwy o bwyslais ar gwblhau ffurflenni WGA yn brydlon ac yn gywir.

11 Mae datganiadau llywodraethu blynyddol, un o ofynion 2010-11, yn parhau i gael eu mireinio a'u gwella ond mae cyfle o hyd i wella eu defnyddioldeb ymhellach. Fel y cyfryw, rwy'n bwriadu cynnal astudiaeth wella er mwyn gwella effeithiolrwydd adolygiadau llywodraethu awdurdodau.

12 Mae gwasanaeth archwilio mewnol effeithiol yn elfen bwysig o fframwaith rheolaeth fewnol awdurdod gan ddarparu sicrwydd annibynnol i reolwyr ac aelodau ar ei drefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol. Yn gyffredinol, aseswyd bod gwasanaethau archwilio mewnol awdurdodau yn cydymffurfio â safonau gofynnol CIPFA.

## Yn gyffredinol llwyddodd awdurdodau i baratoi cyfrifon a phapurau gwaith ategol amserol, a chyhoeddwyd barnau archwilio diamod gennym, yn y rhan fwyaf o achosion erbyn 30 Medi

13 Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddogion Ariannol Cyfrifol awdurdodau baratoi ac ardystio cyfrifon sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y corff ar 31 Mawrth a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn honno, erbyn 30 Mehefin. Mae'r un Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod gymeradwyo'r cyfrifon yn ffurfiol a sicrhau eu bod yn cael eu hardystio gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol a'r unigolyn sy'n llywydd ar y cyfarfod lle y cânt eu cymeradwyo, erbyn 30 Medi. Os methir y terfynau amser ym mis Mehefin neu fis Medi, mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod gyhoeddi (h.y. sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd) datganiad sy'n egluro pam ei fod wedi methu â pharatoi ac ardystio'r cyfrifon a rhoi manylion y camau gweithredu (gan gynnwys amserlenni) sy'n cael eu cymryd i baratoi ac ardystio'r cyfrifon.

14 Ar 30 Mehefin neu oddeutu'r dyddiad hwnnw, mewn cytundeb ag awdurdodau, mae'r archwilwyr a benodwyd yn derbyn cyfrifon a phapurau gwaith ategol i'w galluogi i gyflawni eu gwaith archwilio. Mae'r archwilwyr yn cwblhau eu gwaith mewn da bryd fel bod y cyfrifon yn cael eu hailardystio gan Swyddogion Ariannol Cyfrifol, eu cymeradwyo gan awdurdodau a bod barn archwilio yn cael ei rhoi arnynt erbyn 30 Medi.

15 Mae'n ofynnol gan y rhan fwyaf o awdurdodau i'r cyngor llawn (neu gyfwerth) gymeradwyo eu cyfrifon ar ddiwedd y broses archwilio, a dim ond nifer fach ohonynt sy'n dirprwyo'r cyfrifoldeb hwn i'w Pwyllgor Archwilio o dan Reoliad 9 y Rheoliadau. Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (y Mesur), a gyflwynwyd yn gynharach eleni, yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau sefydlu pwyllgorau archwilio ac yn nodi nifer o ofynion o ran eu haelodaeth a'u gweithgareddau. O ran y cyfrifon, mae'r canllawiau statudol o dan y Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i bwyllgorau archwilio:

- ystyried datganiadau ariannol drafft ardystiedig yr awdurdod a chyflwyno sylwadau arnynt;
- gweld i ba raddau y mae'r datganiadau yn ystyried adroddiadau archwilio yn ystod y flwyddyn, a newidiadau i bolisi cyfrifyddu a systemau rheolaeth fewnol.

16 Gan mai eleni oedd y flwyddyn gyntaf y rhoddwyd y Mesur ar waith ac na chyhoeddwyd y canllawiau statudol tan fis Mehefin 2012, roedd llawer o awdurdodau wrthi o hyd yn sefydlu pwyllgorau archwilio ac yn penodi aelodau lleyg ym mis Medi 2012. Ar gyfer y flwyddyn nesaf, bydd angen i awdurdodau ystyried ymhellach sut y byddant yn sicrhau digon o amser i'w pwyllgorau archwilio adolygu'r cyfrifon cyn eu cymeradwyo.

## Llwyddodd pob awdurdod i baratoi ac ardystio cyfrifon drafft erbyn 30 Mehefin ond nid oedd y gwaith wedi'i gwblhau ymhob achos erbyn y dyddiad hwnnw

17 Llwyddodd pob awdurdod i baratoi ac ardystio cyfrifon drafft erbyn 30 Mehefin. Mae paratoi'r cyfrifon drafft yn broses gymhleth sy'n gofyn am drefniadau rheoli prosiect cadarn ac mae llwyddo i'w hardystio erbyn 30 Mehefin yn gyflawniad.

18 Fodd bynnag, mewn nifer fach o achosion, roedd gwaith yn mynd rhagddo o hyd gan yr awdurdodau ar ôl y terfyn amser o 30 Mehefin mewn perthynas â chofnodion a balansau eiddo, offer a chyfarpar (asedau anghyfredol) er mwyn sicrhau eu bod yn gywir ac yn gyflawn. Yn ystod yr archwiliad, gwnaed addasiadau perthnasol i'r ffigurau ac adlewyrchwyd yr addasiadau hyn yn y setiau cyfrifon archwiliedig terfynol. Er gwaethaf cymhlethdodau cyfrifon llywodraeth leol, mae'r Swyddog Ariannol Cyfrifol yn ardystio bod y cyfrifon drafft yn 'gwir a theg' ac felly dylent fod yn gyflawn cyn cael eu hardystio. Lle nad yw'r gwaith o baratoi'r cyfrifon wedi'i gwblhau erbyn 30 Mehefin, dylid gohirio'r cam ardystio.

## Roedd papurau gwaith i ategu'r cyfrifon o safon dda ar y cyfan ac roedd y safon honno'n gwella, fodd bynnag mae angen i rai awdurdodau wella ymhellach

19 Er mwyn ategu'r cofnodion yn y cyfrifon, ac i sicrhau proses archwilio ddidrafferth, dylai awdurdodau ddarparu papurau gwaith cynhwysfawr a chyflawn i ategu eu cyfrifon, a hynny'n amserol. Mae'n bwysig bod archwilwyr ac awdurdodau yn cytuno ar y gofynion o ran papurau gwaith a gofynion archwilio eraill ymlaen llaw er mwyn hwyluso'r broses o gwblhau'r gwaith archwilio ar amser.

20 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd tuedd gyffredinol o welliant parhaus o ran amseroldeb ac ansawdd y papurau gwaith a ddarparwyd i ategu'r cyfrifon, er i'r duedd hon gael ei gwrthdroi y llynedd yn dilyn y cymhlethdodau ychwanegol a achoswyd drwy gyflwyno IFRS. Mae'n bleser nodi, ar y cyfan, bod y duedd o welliant parhaus wedi dychwelyd.

21 Mae awdurdodau ac archwilwyr wedi parhau i weithio'n galed i sicrhau bod dealltwriaeth gyffredin o'r hyn a ddisgwylir ac, mewn nifer gynyddol o gyrff, mae trefniadau eraill i ategu'r broses wedi parhau i ddatblygu, gan gynnwys, er enghraifft:

- archwilwyr yn cael mynediad darllen yn unig i systemau cyfriflyfr;
- papurau gwaith yn cael eu darparu mewn fformat electronig;
- papurau gwaith yn cael eu rhoi ar yriant rhwydwaith a rennir, y gall y corff a'r archwilydd gael mynediad iddo;
- archwilwyr a chyrff yn rhannu gwybodaeth am feysydd newydd neu gynhennus cyn i'r cyfrifon gael eu cynhyrchu;
- cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar gynnydd a materion wrth iddynt godi drwy gydol y broses o gynhyrchu ac archwilio'r cyfrifon.

22 Mewn nifer fach o awdurdodau, bu anawsterau wrth ddarparu papurau gwaith ategol cywir ac amserol ar gyfer cofnodion yn ymwneud â darpariaethau cyflog cyfartal a datgeliadau ac eiddo, offer a chyfarpar.

23 Mae angen i awdurdodau ac archwilwyr barhau i gydweithio i wella ansawdd ac amseroldeb y papurau gwaith sy'n ategu'r cyfrifon. Dengys profiad mai un o'r dulliau mwyaf gwerthfawr ar gyfer gwella trefniadau yw sesiwn ddysgu ar y cyd yn dilyn cwblhau prosiect lle y caiff archwilwyr a rheolwyr gyfle i rannu eu safbwyntiau am y broses llunio cyfrifon ac archwilio ar ôl ei chwblhau mewn ffordd agored. Mae sesiynau o'r fath wedi galluogi archwilwyr a rheolwyr i rannu profiadau a safbwyntiau am yr hyn a aeth yn

dda a'r hyn nad aeth cystal ac wedi helpu i nodi gwelliannau ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

24 Rydym hefyd wedi datblygu canllaw arfer da a all helpu cyrff i gynllunio ar gyfer cau eu cyfrifon yn gynt a chyflawni hynny. Paratowyd y canllaw ar gyfer cyrff cyhoeddus a'u harchwilwyr allanol, a gellir dod o hyd iddo ar ein gwefan Cyfnewidfa Arfer Da[1]. Mae'n cynnwys canllawiau ac astudiaethau achos ar newid diwylliant, cynllunio, arferion gwaith yn ystod y flwyddyn, a chau a chyflwyno adroddiadau.

## Roedd angen nifer o addasiadau i'r cyfrifon drafft, yn bennaf mewn perthynas ag eiddo, offer a chyfarpar

25 Wrth archwilio'r cyfrifon, nid yw archwilwyr yn rhoi sicrwydd llwyr bod y datganiadau ariannol wedi'u datgan yn gywir, ond maent yn mabwysiadu'r cysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, mae archwilwyr yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol pa un a gawsant eu hachosi drwy dwyll neu wall yn y cyfrifon. Camddatganiadau perthnasol yw'r rhai a allai gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon.

26 Mae penderfyniad yr archwilydd ynghylch perthnasedd yn fater o farn broffesiynol ac mae sawl ffactor yn dylanwadu ar y penderfyniad gan gynnwys:

- y math o gorff a archwilir;
- natur y gwasanaethau a ddarperir gan y corff;
- gofynion deddfwriaethol;
- y wybodaeth ariannol sydd ei hangen ar ddeddfwyr ac unigolion eraill sy'n defnyddio'r cyfrifon.

27 O ran yr awdurdodau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn, cyfanswm y gwariant refeniw crynswth cyfunol bras (fel y'i nodir yn y cyfrifon) oedd £10 biliwn a chyfanswm yr asedau hirdymor oedd £15.5 biliwn. Cyfanswm asedau net yr wyth cronfa bensiwn oedd £9.6 biliwn.

28 Roedd y swm lle yr ystyriwyd bod camddatganiad yn berthnasol os oedd uwchlaw'r swm penodol hwnnw yn amrywio o £35,000 mewn awdurdodau llai o faint i £10 miliwn mewn awdurdodau mawr. Gall materion ansoddol penodol megis gofynion cyfreithiol a rheoliadol a sensitifrwydd gwleidyddol hefyd bennu p'un a fernir bod eitem yn berthnasol ai peidio. Felly, gellir ystyried bod balansau a thrafodion â gwerthoedd is yn berthnasol i'r cyfrifon.

29 Drwy eu gwaith, gall archwilwyr nodi camddatganiadau perthnasol yng nghyfrifon awdurdod. Os digwydd hyn, bydd yr archwilydd yn gofyn i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol ddiwygio'r cyfrifon er mwyn cywiro'r gwallau. Os na chaiff y camddatganiadau perthnasol eu cywiro, neu os nad yw'n bosibl newid y camddatganiadau hynny am nad oes digon o wybodaeth ar gael, gall yr archwilydd ystyried rhoi barn ansafonol (h.y. amodol).

30 Yn 2011-12, gwnaeth 17 (53 y cant) o'r cyrff a gwmpesir gan yr adroddiad addasiadau perthnasol i'w cyfrifon ar ôl archwiliad. Roedd hyn un yn fwy na'r nifer yn 2010-11. Gwnaed cyfanswm o £323 miliwn (£613 miliwn yn 2010-11) o addasiadau perthnasol i gyfrifon mewn perthynas â mantolenni a £51 miliwn (£502 miliwn yn 2010-11) mewn perthynas â Datganiadau o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (SCIE).

31 Yn ogystal, caiff camddatganiadau amherthnasol ond sylweddol eraill hefyd eu dwyn at sylw'r Swyddog Ariannol Cyfrifol. Mae'r archwilwyr yn gofyn i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol ddiwygio'r cyfrifon er mwyn cywiro gwallau o'r fath. Pan gaiff gwallau o'r fath a chamddatganiadau sylweddol eraill eu dwyn at sylw'r Swyddog Ariannol Cyfrifol ond na chânt eu haddasu, bydd yr archwilwyr yn tynnu sylw'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu

1 http://www.wao.gov.uk/cymraeg/goodpractice/1488.asp

at hynny. Gofynnant am esboniad ynghylch pam nad yw'r addasiadau wedi'u gwneud cyn iddynt gymeradwyo'r cyfrifon. Yn 2011-12, roedd £25.9 miliwn o gamddatganiadau nas addaswyd (ond nad oeddent yn berthnasol) yn weddill mewn cyfrifon archwiliedig mewn perthynas â mantolenni (£33.3 miliwn yn 2010-11) a £9.2 miliwn (£22.9 miliwn yn 2010-11) mewn perthynas â SCIE.

**32** Ceir crynodeb isod o'r prif feysydd lle y nodwyd camddatganiadau, perthnasol ac amherthnasol, o waith archwilio yn 2011-12.

## Eiddo, offer a chyfarpar

**33** Erys eiddo, offer a chyfarpar yn faes lle mae nifer sylweddol o awdurdodau yn cael anhawster cymhwyso'r driniaeth gyfrifyddu yn gywir. Yn ogystal, ar gyfer 2011-12, roedd yn ofynnol i awdurdodau gymhwyso Asedau Treftadaeth FRS 30 am y tro cyntaf. Achosodd hyn broblemau penodol i rai awdurdodau o ran nodi asedau o'r fath a rhoi cyfrif priodol amdanynt. Cododd rhai o'r problemau cyffredinol y daethpwyd ar eu traws mewn blynyddoedd blaenorol eto, gan gynnwys:

- methiant i roi cyfrif am eiddo a ailbrisiwyd yn gywir neu ailbrisio eiddo gan ddefnyddio'r sail anghywir (priodolwyd hyn yn aml i gyfathrebu gwael rhwng adrannau cyllid ac adrannau ystadau);
- nid oedd modd cysoni cofrestrau asedau yn llawn gyda chofnodion cyfrifyddu, gyda rhai problemau cyffredin (megis rhai asedau yn cael eu cyfrif ddwywaith ac eraill yn cael eu hepgor o'r cyfrifon);
- materion cyffredinol o ran cyfrifyddu'n gywir am ddibrisiant, cydnabod a rhoi cyfrif am ddiffygion, trin a datgelu gwariant nad yw'n ychwanegu gwerth a dosbarthu asedau.

## Darpariaethau

**34** Mae'n ofynnol i awdurdodau ystyried a all digwyddiadau a ddigwyddodd cyn diwedd y flwyddyn arwain at rwymedigaeth yn y dyfodol. Os yw'n fwy tebygol na pheidio y bydd rhwymedigaeth yn crisialu ac y gellir ei hamcangyfrif mewn ffordd ddibynadwy, yna bydd angen darpariaeth ariannol mewn perthynas â'r digwyddiad hwnnw.

**35** Fel y llynedd, roedd nifer o awdurdodau wedi sefydlu darpariaethau yn amhriodol ac roedd eraill wedi methu â sefydlu darpariaethau pan oedd angen gwneud hynny. Unwaith eto, roedd nifer o gamddatganiadau yn ymwneud â chyfrifyddu yswiriant, gyda rhai darpariaethau yn cael eu nodi'n amhriodol fel cronfeydd wrth gefn ac i'r gwrthwyneb.

## Incwm a gwariant

**36** Er bod y symiau dan sylw yn gyffredinol yn amherthnasol, rhoddodd yr archwilwyr wybod i nifer o awdurdodau am faterion a oedd yn ymwneud â thrafodion incwm a gwariant. Roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf â'r dyddiad cau ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer dyledwyr, credydwyr a chroniadau neu bennu swm net eitemau incwm a gwariant. Roedd rhai materion hefyd ynghylch peidio â chyfuno trafodion a balansau cydbwyllgorau (neu eu cyfuno'n anghywir).

## Hawliadau cyflog cyfartal a chyfraniadau pensiwn

**37** Y llynedd cofnodais o ganlyniad i wahanol safbwyntiau cyfreithiol o ran pa un a oedd taliadau pensiwn yn daladwy ar setliadau hawliadau cyflog cyfartal, bod rhai awdurdodau wedi cynnwys darpariaethau ar gyfer hawliadau pensiwn a bod awdurdodau eraill wedi'u hepgor. Eleni, mae cyngor cyfreithiol a roddwyd i'r Archwilydd Penodedig yn awgrymu y dylid gwneud cyfraniadau pensiwn ar y taliadau i fodloni hawliadau cyflog cyfartal. Fodd bynnag, mae rhai awdurdodau o'r farn, ar sail y cyngor

cyfreithiol a roddwyd iddynt, bod y cytundebau cyfaddawdu yr ymrwymwyd iddynt wrth setlo hawliadau yn diddymu'r gofyniad i gynnwys cyfraniadau pensiwn.

38 Felly, mae rhai awdurdodau wedi cynnwys costau pensiwn yn eu darpariaethau ac nid yw awdurdodau eraill wedi gwneud hynny, ar sail y cyngor cyfreithiol a roddwyd iddynt. Oherwydd y safbwyntiau cyfreithiol gwahanol a'r ansicrwydd ynghylch y mater hwn, derbyniwyd y ddau ddull gweithredu at ddibenion cyfrifyddu eleni.

39 Fodd bynnag, mae angen i awdurdodau fod yn ymwybodol o unrhyw benderfyniadau gan y llysoedd yn y dyfodol ar y mater hwn a allai egluro'r sefyllfa gyfreithiol ac effeithio ar yr angen i gyfraniadau pensiwn gael eu cydnabod ar hawliadau.

40 Yn ogystal â'r ansicrwydd o ran pa un a oes angen cyfraniadau pensiwn, diwygiwyd nifer o ddarpariaethau cyflog cyfartal a gynhwyswyd yn y cyfrifon drafft er mwyn sicrhau eu bod yn briodol ac yn rhesymol.

## Cronfeydd pensiwn

41 Nododd yr archwilwyr amrywiaeth o faterion mewn perthynas â chyfrifon cronfeydd pensiwn eleni, a oedd yn ymwneud yn bennaf â'r canlynol:

- y ffaith nad oedd adroddiadau sicrwydd archwilio ar gael gan reolwyr cronfeydd;
- prisio buddsoddiadau a'u dosbarthu a'u datgelu'n briodol;
- ymdrin â phrosesau swmp drosglwyddo staff mewn perthynas ag Ymddiriedolaeth Prawf Cymru.

## Cafodd pob awdurdod ond dau farnau archwilio diamod erbyn 30 Medi

42 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i archwilwyr roi barn ar y cyfrifon ar ôl iddynt gwblhau'r archwiliad. Mae archwilwyr yn anelu at roi eu barn ar y cyfrifon erbyn 30 Medi, er mwyn galluogi cyrff i gyhoeddi cyfrifon archwiliedig erbyn y terfyn amser statudol. Eleni, fel mewn blynyddoedd blaenorol, cafodd cyfrifon y mwyafrif helaeth o awdurdodau eu cymeradwyo a rhoddwyd barnau archwilio diamod arnynt erbyn y dyddiad terfyn o 30 Medi. Fodd bynnag, roedd dau awdurdod - Cyngor Dinas Casnewydd a Dinas a Sir Abertawe - lle nad ardystiwyd y cyfrifon erbyn y dyddiad terfyn.

43 Ar gyfer Cyngor Dinas Casnewydd, ar y diwrnod y disgwyliwyd i'r Cyngor gymeradwyo'r cyfrifon ac i'r archwilydd eu llofnodi (27 Medi 2012), daeth gwybodaeth ychwanegol ar gael yn genedlaethol o ran rhwymedigaethau ar gyfer Cwmni Yswiriant Municipal Mutual gynt. Awgrymodd hyn i ddechrau y gallai fod angen newid perthnasol i gyfrifon y Cyngor. Yn dilyn gwaith pellach gan y Cyngor a'r archwilydd, daeth i'r amlwg wedi hynny bod angen newid ond nad oedd yn berthnasol. O ganlyniad, rhoddwyd barn ddiamod ar 22 Hydref 2012, y dyddiad cynharaf y gallai'r Cyngor drefnu i'r cyfrifon gael eu hailgymeradwyo.

44 Yn achos Dinas a Sir Abertawe, roedd y cyfrifon a gymeradwywyd yn cynnwys triniaeth gyfrifyddu a datgeliad mewn perthynas â threfniadau bancio a rheoli arian parod penodol rhwng y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn, y mae'r Cyngor a'r archwilydd wrthi'n eu trafod.

## Mae rhai awdurdodau yn methu â bodloni'r gofynion i gyhoeddi eu cyfrifon erbyn 30 Medi o hyd

45 Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gyhoeddi eu datganiad o gyfrifon (pa un a ydynt wedi'u harchwilio ai peidio) erbyn 30 Medi bob blwyddyn. Er nad yw'r broses gyhoeddi yn gofyn am unrhyw waith paratoi y tu hwnt i'r datganiadau eu hunain, nac am ddosbarthu copïau o'r datganiadau i unigolion nad ydynt wedi mynegi diddordeb mewn derbyn y datganiadau hynny, mae'n gofyn am gamau gweithredu cadarnhaol.

46 Mae'r ymagwedd tuag at fodloni'r gofynion i 'gyhoeddi' yn amrywio. Fodd bynnag, nid yw'n ddigonol bod y cyfrifon ar gael drwy bapurau pwyllgorau neu drwy roi copïau i'r sawl sy'n gwneud ymholiadau ar gais yn unig; disgwylir y bydd cyfrifon ar gael i'r cyhoedd eu gweld. Y ffordd fwyaf effeithlon o wneud hyn fel arfer yw bod y cyfrifon archwiliedig yn cael eu cyhoeddi ar wefan y corff. Fodd bynnag, awgryma canllawiau Llywodraeth Cymru na ddylai awdurdodau ddibynnu ar un dull o gyhoeddi yn unig. Mae'r rhan fwyaf o gyrff bellach yn rhoi copïau o'u cyfrifon archwiliedig ar eu gwefan a rhai hefyd mewn swyddfeydd cyhoeddus. Fodd bynnag, dim ond drwy bapurau pwyllgorau y mae rhai yn eu rhyddhau o hyd. Yn ogystal, priodolwyd rhywfaint o'r oedi wrth roi'r cyfrifon ar wefannau i'r broses o gyfieithu'r cyfrifon er mwyn sicrhau bod y fersiwn Cymraeg a'r fersiwn Saesneg ar gael ar yr un pryd. Fodd bynnag, mae rhai yn cynhyrchu fersiynau dwyieithog yn barod i'w cymeradwyo a'u cyhoeddi erbyn diwedd mis Medi. Mae angen i awdurdodau sicrhau bod ganddynt drefniadau priodol ar waith i gyhoeddi eu cyfrifon yn briodol erbyn y dyddiad cau.

## O ganlyniad i faterion sy'n cael eu hystyried mewn perthynas â chwestiynau a godwyd gan etholwyr llywodraeth leol, nid yw'r archwilydd wedi ardystio nifer fach o archwiliadau fel rhai sydd wedi'u cwblhau

47 Cyn rhoi barnau a chwblhau'r archwiliad, mae nifer o faterion y mae angen i archwilwyr eu hystyried:

- pa un a ddylid cyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd;
- p'un a ymdriniwyd â phob cwestiwn a/neu wrthwynebiad gan etholwyr yn foddhaol.

48 Lle bydd materion heb eu datrys, gall yr archwilydd roi barn ar y datganiadau ariannol pan fydd o'r farn na fydd y materion yn cael effaith berthnasol ar y cyfrifon. Unwaith y caiff y materion eu datrys, gall yr archwilydd ailgyflwyno'r farn ac ardystio bod yr archwiliad wedi'i gwblhau.

49 Ar gyfer pum awdurdod, ni roddwyd y dystysgrif yn cwblhau'r archwiliad gan fod materion heb eu datrys mewn perthynas â chwestiynau a gwrthwynebiadau etholwyr. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu y bydd angen unrhyw gamau archwilio ffurfiol yn y pen draw, gan na fydd o bosibl unrhyw arwyddocâd i'r materion a godwyd. Fodd bynnag, hyd nes y caiff y materion eu hystyried a'u datrys yn llawn, ni ellir ardystio bod yr archwiliadau wedi'u cwblhau.

# Mae cyfleoedd i egluro'r driniaeth gyfrifyddu mewn sawl maes

## Mae angen egluro'r driniaeth gyfrifyddu ar gyfer ysgolion o hyd

50 Yn fy adroddiad yn dwyn y teitl *Cyfrifon Awdurdodau Lleol 2010-11*, nodais fod diffyg eglurder o ran cydnabod asedau ysgolion sylfaen, ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol ac ysgolion a reolir yn wirfoddol ar fantolenni awdurdodau. Gan nad oes canllawiau pendant, mae awdurdodau unwaith eto yn 2011-12 wedi mabwysiadu dulliau anghyson o ran eu triniaeth gyfrifyddu mewn perthynas â'r ysgolion hyn, gyda rhai awdurdodau yn eu cydnabod ar fantolenni ac eraill yn penderfynu peidio â gwneud hynny.

51 Roedd cyfrifyddu ar gyfer ysgolion yn rhan o ymgynghoriad CIPFA/LASAAC ar ddiwygiadau i'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod) a fydd yn berthnasol i flwyddyn ariannol 2013-14. Mae CIPFA/LASAAC wrthi'n ystyried yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad.

52 Unwaith y bydd Cod 2013-14 wedi'i gwblhau ar ei ffurf derfynol, bydd angen i awdurdodau ystyried pa un a yw eu triniaeth gyfrifyddu yn gyson â gofynion y Cod a gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol yng nghyfrifon 2013-14.

## Mae methodolegau prisio tai cyngor yn arwain at brisiadau anghyson

53 Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i anheddau cyngor gael eu prisio gan ddefnyddio Gwerth Defnydd Presennol - Tai Cymdeithasol (EUV-SH). Dyma'r swm amcangyfrifedig a ddylai gael ei godi pan fydd eiddo yn newid dwylo rhwng prynwr parod a gwerthwr parod mewn trafodyn hyd braich ar y dyddiad prisio.

54 Yn fy adroddiad y llynedd, nodais fod dwy fethodoleg ar gyfer cyfrifo EUV-SH: gwerth eiddo gwag wedi'i addasu a llif arian parod wedi'i ddisgowntio. Defnyddir y ddwy fethodoleg ac ymddengys eu bod yn arwain at brisiadau gwahanol iawn.

55 Yn ystod cylch archwilio 2011-12, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi ceisio deall sut y mae amrywiadau o'r fath yn codi. Nodwyd gennym, mewn rhai achosion, fod y prisiadau allanol yn codi o ganlyniad i'r ffaith bod awdurdodau yn defnyddio tybiaethau amhriodol ac addasodd yr awdurdodau perthnasol eu cyfrifiadau fel y bo'n briodol. Fodd bynnag, erys gwahaniaethau yn deillio o'r fethodoleg a ddefnyddir. Felly, byddai'n ddymunol pe defnyddiwyd un fethodoleg benodol ar gyfer cyfrifo EUV-SH yng Nghymru. Byddwn yn parhau i drafod y mater hwn gyda chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol er mwyn sicrhau cysondeb prisiadau.

## Ni chydnabuwyd rhwymedigaethau o ran adfer safleoedd tirlenwi yn gyson

56 Mae dyletswydd ar endidau sy'n gweithredu safle tirlenwi (neu sydd wedi gwneud hynny), yn deillio o amodau mewn caniatadau cynllunio a thrwyddedau Asiantaeth yr Amgylchedd, i gynnal gwaith adfer sy'n cynnwys:

- gosod cap a system ddraenio addas ar y safle;
- cynnal gwaith ôl-ofal priodol, gan gynnwys monitro a rheoli'r nwy a'r trwytholch a gaiff ei gynhyrchu ar safleoedd am sawl degawd ar ôl iddynt gau.

57 Mae nifer o awdurdodau yng Nghymru yn gweithredu safleoedd tirlenwi o hyd; mae eraill yn gyfrifol am safleoedd nad ydynt bellach yn weithredol ond y mae angen trefniadau ôl-ofal a monitro ar eu cyfer. Gall fod rhwymedigaethau ar awdurdodau hefyd o ganlyniad i roi cymorth ariannol/gwarantau i Gwmnïau Gwaredu Gwastraff Awdurdodau Lleol (LAWDC).

58 Yn 2011-12, nododd archwilwyr nad yw awdurdodau yng Nghymru o bosibl yn cydnabod rhwymedigaethau sy'n ymwneud ag adfer safleoedd tirlenwi ar sail gyson. Mae rhai awdurdodau wedi cydnabod rhwymedigaeth o ran capio a draenio'r safleoedd. Fodd bynnag, nid yw'n glir pa un a gafodd y rhwymedigaeth hon ei chyfalafu neu ei thrin fel gwariant refeniw. Mae awdurdodau eraill wedi agor cronfa newydd wrth gefn, yn hytrach na darparu ar gyfer y rhwymedigaeth. Prin yw'r awdurdodau sydd wedi cydnabod darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau sy'n ymwneud ag ôl-ofal.

59 Rydym wedi gweithio gyda CIPFA i wella'r canllawiau o ran adfer safleoedd tirlenwi. Bydd archwilwyr yn ymgynghori â chyfarwyddwyr cyllid er mwyn helpu i sicrhau y rhoddir cyfrif priodol am y rhwymedigaethau yn 2012-13.

## Ni lwyddodd y rhan fwyaf o awdurdodau i baratoi eu ffurflenni Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan drafft yn brydlon er bod y rhan fwyaf o'r ffurflenni terfynol wedi'u cwblhau erbyn y dyddiad gofynnol

60 Mae Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan yn gyfres o ddatganiadau ariannol cyfunol masnachol ar gyfer y sector cyhoeddus yn y DU. Caiff cyfrifon tua 1,400 o gyrff eu cyfuno i greu Cyfrifon Llywodraeth Gyfan y DU, a baratoir gan Drysorlys EM, yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

61 Trysorlys EM sy'n penderfynu pa gyrff a gaiff eu cynnwys yng Nghyfrifon y Llywodraeth Gyfan bob blwyddyn. Mae hefyd yn dynodi swyddog cyfuno ar gyfer pob corff. Mae'r swyddog hwn yn gyfrifol am ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer llunio ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan yn amserol a sicrhau bod y ffurflen yn cael ei hategu gan systemau digonol a dyfarniadau cyfrifyddu priodol. Mae'r trefniadau hyn yn berthnasol i bob un o'r awdurdodau yn yr adroddiad hwn ond un (mae un awdurdod islaw trothwy £10 miliwn Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan).

62 Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yw archwilydd statudol Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Caiff gwaith y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ei ategu gan y gwaith a wneir gan archwilwyr y cyrff unigol sy'n cael eu cynnwys yng Nghyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Yng Nghymru, rwy'n rhoi datganiadau sicrwydd i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ar y tri is-gyfuniad yng Nghymru gan gynnwys is-gyfuniad llywodraeth leol sy'n cynnwys pob corff llywodraeth leol yng Nghymru.

63 Ar gyfer 2011-12, roedd yr amserlenni fel a ganlyn:

- darparu ffurflenni Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan i Lywodraeth Cymru a thimau archwilio lleol erbyn 13 Gorffennaf;
- darparu ffurflenni Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan wedi'u harchwilio a'u cwblhau i Lywodraeth Cymru erbyn 28 Medi.

64 Dim ond dau awdurdod a fodlonodd y terfyn amser ar gyfer cyflwyno ffurflenni drafft a chytunodd pump arall ar estyniad gyda Llywodraeth Cymru. O'r pump y cytunwyd ar estyniadau ar eu cyfer, ni lwyddodd tri ohonynt i gyflawni eu terfynau amser diwygiedig gydag un yn methu o 10 diwrnod gwaith.

65 Roedd y sefyllfa hon yn siomedig iawn gan y disgwyliwyd y byddai'r awdurdodau yn gwneud yn well o gofio nad oedd ailddatganiad untro IFRS a oedd yn berthnasol i gyfrifon 2010-11 a 2009-10 bellach yn berthnasol a bod cyfrifon 2011-12 wedi'u paratoi ar sail IFRS o'r cychwyn cyntaf.

66 Er gwaethaf hyn, cyflwynwyd y rhan fwyaf o'r ffurflenni terfynol wedi'u harchwilio yn brydlon; roedd oedi byr o ddim ond dau ddiwrnod gwaith ar ôl y terfyn amser yn achos pum awdurdod ac mae un arall nas ardystiwyd eto. Rhoddwyd barn ddiamod ar bob un ohonynt. Mae hyn yn amlygu'r ffaith bod angen rhoi mwy o bwyslais ar gwblhau ffurflenni Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan yn brydlon ac yn gywir.

## Yn gyffredinol, roedd y datganiadau llywodraethu blynyddol wedi'u paratoi'n dda er y gellid gwella eu heffeithiolrwydd o hyd

67 Amlygodd fy adroddiad *Cyfrifon Awdurdodau Lleol 2010-11* fod cyfleoedd ar y cyfan i wella'r broses o gynhyrchu datganiadau llywodraethu blynyddol a'u cynnwys ymhellach. Gellid hefyd sicrhau mwy o fudd ohonynt, a'r adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd trefniadau y mae'n ofynnol i awdurdodau ei gynnal, drwy gysylltu'r gwaith yn agosach â'r dyletswyddau a osodir ar y rhan fwyaf o awdurdodau o dan Fesur 2009. Yn 2011-12, mae'r awdurdodau wedi parhau i fireinio a gwella eu datganiadau llywodraethu blynyddol gan gynnwys nodi sut yr ymdriniwyd â materion llywodraethu a gododd. Fodd bynnag, mae angen gwelliannau pellach o hyd o ran yr hyn a gofnodir yn y datganiadau eu hunain ac o ran sut y cânt eu llunio.

68 Ar ôl ymgynghori ag awdurdodau gwella ar fy rhaglen waith, rwyf yn cynnal astudiaeth wella i werthuso effeithiolrwydd adolygiadau awdurdodau o drefniadau llywodraethu. Y nod yw nodi sut y gellir eu gwella i roi sicrwydd eu bod yn ffordd ddibynadwy o hunanwerthuso.

69 Bydd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar nodi pwyntiau dysgu er mwyn i awdurdodau eu hystyried yn ystod eu hadolygiadau o drefniadau llywodraethu a fydd yn arwain at ddatganiadau llywodraethu blynyddol 2012-13. Bydd y gwaith yn gwerthuso'r gweithgarwch adolygu a arweiniodd at ddatganiadau 2011-12, yng ngoleuni canllawiau CIPFA.

70 Nid yw'r astudiaeth yn ei gwneud yn ofynnol i systemau a strwythurau llywodraethu awdurdod gael eu harchwilio. Yn hytrach mae'n archwilio beth mae awdurdod ei hun wedi'i wneud i adolygu ei drefniadau llywodraethu.

71 Cyhoeddir adroddiad cryno cenedlaethol ar ffurf 'nodyn ymarfer'. Bydd hwn yn crynhoi'r pwyntiau dysgu allweddol ar lefel genedlaethol ac yn nodi'r camau y bydd angen i awdurdodau eu cymryd i sicrhau bod adolygiadau o drefniadau llywodraethu mor effeithiol â phosibl.

## Asesodd archwilwyr fod gwasanaethau archwilio mewnol y rhan fwyaf o awdurdodau yn cydymffurfio â safonau CIPFA

72 Mae'r gwasanaeth archwilio mewnol yn rhan allweddol o amgylchedd rheolaeth fewnol awdurdod, gan ddarparu sicrwydd annibynnol ar ei drefniadau llywodraethu a'i systemau a'i reolaethau ariannol. Mae gwasanaeth archwilio mewnol effeithiol yn helpu i sicrhau bod sefydliad yn cyflawni'r safonau uchel o onestrwydd sydd eu hangen wrth ymdrin ag arian cyhoeddus, yn helpu'r pwyllgor archwilio i gyflawni ei swyddogaethau a hefyd yn cyfrannu at y datganiad llywodraethu blynyddol.

73 Mae ISA 610 yn ei gwneud yn ofynnol i archwilwyr allanol asesu'r gwasanaeth Archwilio Mewnol bob blwyddyn lle y mae'n berthnasol i'w hasesiad risg. Lle y bo'n briodol, gall archwilwyr allanol wedyn ddibynnu ar waith y gwasanaeth Archwilio Mewnol i ategu eu gwaith eu hunain. Mae hyn yn helpu i osgoi dyblygu a hefyd yn rhoi asesiad annibynnol o'r trefniadau Archwilio Mewnol sydd ar waith. Gwneir yr asesiad yn erbyn y safonau a nodir yng Nghod Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig. O 1 Ebrill 2013, caiff y safonau hyn eu disodli gan Safonau Archwilio Mewnol y Gwasanaethau Cyhoeddus a gaiff eu llunio gan CIPFA a'r Sefydliad Archwilwyr Mewnol.

74 Lle y gwnaed asesiad o'r fath, canfu'r archwilwyr ar y cyfan fod gwasanaethau archwilio mewnol yn cydymffurfio'n llawn â safonau CIPFA. Mewn nifer fach o awdurdodau, gwnaed argymhellion ar gyfer gwelliannau pellach ac roedd y cyfryw feysydd lle roedd angen gwaith datblygu pellach yn cynnwys:

- cynllunio ac asesu risg;
- sicrhau annibyniaeth lawn (roedd gan rai prif archwilwyr mewnol swyddogaethau gweithredol);
- rheoli ansawdd ac adolygu gwaith archwilio;
- lefelau staffio a datblygiad proffesiynol parhaus.

75 Serch hynny, roedd yr archwilwyr yn gallu dibynnu ar waith y gwasanaeth Archwilio Mewnol lle roedd y gwaith hwn yn berthnasol i ymdrin â'r risgiau y ceid camddatganiadau perthnasol yn y cyfrifon.